@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James

## Teyrnged i'r diweddar Mr Dyfed Jones

Clywsom y newyddion trist am farwolaeth Mr Dyfed Jones ddechrau mis Awst, yn dilyn cyfnod o salwch.



Bu Mr Jones yn athro yn yr ysgol ers ugain o flynyddoedd, gan dreulio mwyafrif y blynyddoedd hynny yn athro blwyddyn 4. Roedd Mr Jones yn athro wrth reddf, gyda'i bersonoliaeth caredig a'i ddisgwyliadau uchel yn gosod y nod ar gyfer pob un dysgwr dan ei ofal. Roedd gwerthoedd yr ysgol sef Cymreictod, Parchu ein Gilydd a Gwneud ein Gorau Glas hefyd yn werthoedd pwysig i Mr Jones, a gwelwyd hyn yn amlwg yn ystod ei yrfa yma. Roedd e bob amser yn frwdfrydig am ei wersi, ac am gynnig y profiadau gorau i'r disgyblion. Yn ogystal â Mathemateg a rhifedd, roedd Mr Jones hefyd yn cydlynu gweithgareddau chwaraeon yr ysgol. Yn hyfforddwr rygbi a phêl-droed brwd, profodd lwyddiant di-ri ar hyd y blynyddoedd ar y meysydd chwarae yn lleol a chenedlaethol. Y mwyaf diweddar, er mawr balchder iddo yntau ac i ninnau, er gwaethaf ei salwch yr haf hwn, oedd iddo lwyddo i arwain y tîm pêl-droed 5-bob-ochr i lwyddiant cenedlaethol yn y Drenewydd. Dangosodd hyn wir angerdd Mr Jones at weld plant yr ysgol yn gwneud eu gorau glas a llwyddo, hyd yn oed pan oedd yn brwydro'n galed ei hunan yn erbyn ei salwch.

Mi fyddwn fel ysgol yn gweld eisiau ei gyfeillgarwch, ei gydweithio a'i gwmnïaeth; mae'n gadael bwlch enfawr ar ei ôl a fydd yn amhosib ei lenwi.

Mae ei deulu cyfan yn ein meddyliau yn ystod y cyfnod anodd hwn.

## *A tribute to the late Mr Dyfed Jones*

*We heard the sad news about the death of Mr Dyfed Jones at the beginning of August, following a period of illness.*

*Mr Jones had been a teacher at Ysgol Gymraeg for twenty years, spending most of them as a teacher in year 4. Mr Jones was an instinctive teacher, with his kind personality and his high expectations for every single learner under his care. The school's values of Welshness, Respecting Each Other and Doing Our Very Best were also important values for Mr Jones, and this was clearly seen throughout his career at Ysgol Gymraeg. He was enthusiastic about his teaching, always wanting to offer the best experiences for the pupils. As well as Mathematics and numeracy, Mr Jones was also the coordinator for the school's sporting activities. A keen rugby and football coach, he experienced countless successes throughout the years on the playing fields locally and nationally. The most recent, which was a proud moment for him and the school, was managing to lead the 5-a-side football team to national success in Newtown this summer, despite his illness. This showed the true passion of Mr Jones, to see the school children doing their very best and succeeding, even though he was battling hard against his illness.*

*As a school, we will dearly miss Mr Jones as a teacher, colleague and friend; he leaves a void which will be impossible to fill.*

*His whole family are in our thoughts during this difficult time.*

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher***
**28/08/2024**
www.ysgolgymraeg.cymru